

UAL Art and Design (Routes in Art and Design, Photography, Fashion and Textiles) (Extended Diploma) Level 3



Yn gryno

Mae'r cwrs 2 flynedd newydd ac arloesol hwn yn eich helpu i ddysgu beth sy'n eich diddori chi fwyaf ym maes celf a dylunio a datblygu rhai o'r sgiliau sylfaenol sy'n sail i'r disgyblaethau creadigol.

Dyma'r cwrs i chi os...

- ... Ydych yn greadigol
- ... Ydych eisiau datblygu sgiliau ymarferol
- ... Ydych eisiau cwrs sy'n adlewyrchu profiad o'r diwydiant

Beth fyddaf yn ei wneud?

Rydym yn gyffrous i fod yn ganolfan gymeradwy ar gyfer corff dyfarnu Prifysgol y Celfyddydau



TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Llundain (UAL). Bydd y cwrs hwn yn eich annog a'ch ymestyn i gyfathrebu'n weledol, meddwl yn gysniadol a datblygu technegau datrys problemau ac ymarferol.

Gyda mynediad at weithdai a stiwdios dylunio gyda'r holl gyfleusterau proffesiynol, byddwch yn dysgu drwy arbrofi gan ddefnyddio ystod eang o brosesau 2D, 3D a digidol. Bydd y prosiect yn eich helpu i ennill dealltwriaeth gyd-destunol o gelf a dylunio a'ch cefnogi i wneud a mynegi eich taith bersonol a dehongliadau. Drwy gydol eich taith byddwch yn cael eich addysgu a'ch cefnogi gan diwtoriaid gyda sgiliau, gwybodaeth a phrofiad helaeth o ymarfer diwydiannol ac addysg o fewn y celfyddydau creadigol. Drwy gydol y flwyddyn, byddwch yn cael eich annog i ddatblygu cysylltiadau a diddordebau personol. Yn ystod tymor 3, byddwch yn negodi prosiect a gychwynnwyd gennych chi, gan eich galluogi i adnabod maes diddordeb mwy arbenigol, megis ffasiwn a thecstilau, celf gain, dylunio 3D, ffotograffiaeth neu TG.

Cewch eich asesu drwy waith cwrs a, phan fyddwch wedi ei gwblhau, byddwch yn cyflawni:

Celf a Dylunio Lefel 3

Cymwysterau cynorthwyol priodol er mwyn lledu eich sgiliau

[Gweithgareddau Sgiliau](#)

[Saesneg a Mathemateg](#)

Beth a ddisgwylir ohonof i?

I gofrestru ar y cwrs hwn, mae angen i chi fod ag o leiaf 5 TGAU Gradd C neu uwch, gan gynnwys Celf ac un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg, neu gymhwyster Diploma Lefel 2 priodol ar radd Teilyngdod gyda TGAU Gradd C neu uwch mewn un ai Mathemateg/Rhifedd neu Gymraeg Iaith Gyntaf/Saesneg.

Mae ymrwymiad llawn i bresenoldeb yn angenrheidiol, yn ogystal â pharch tuag at eraill, gallu i gymell eich hun, gallu creadigol a dyhead i lwyddo.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Wedi i chi gwblhau'r diploma un flwyddyn, byddwch yn cael y cyfle i symud ymlaen i'r ail flwyddyn (Estynedig), gallwch ganolbwyntio ar arbenigedd o'ch dewis, yn ogystal â gweithio ar draws y cyfryngau a gweithdai a fydd yn eich galluogi i ddewis eich llwybr gyfra mewn ffordd wybodus.

Apply online at www.colegwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)





TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Dilyniant i Addysg Uwch ar gwblhau blwyddyn dau yn llwyddiannus. Yma yng Ngholeg Gwent, rydym yn cynnig ystod o gyrsiau Addysg Uwch ar lefel Gradd Sylfaen a HND (Uwch Ddiploma Cenedlaethol) ym meysydd creadigol Ffasiwn a Thecstilau, Darlunio a Ffotograffiaeth. Rydym hefyd yn eich paratoi a'ch arwain drwy broses ymgeisio UCAS, gan eich galluogi i wneud cais am ystod eang o raglenni gradd o fewn y celfyddydau creadigol.

Gwybodaeth Ychwanegol

Ein nod yw ei gwneud hi mor hawdd ag sy'n bosibl i sicrhau eich lle ar eich rhaglen ddelfrydol. Rydym yn eich croesawu i'ch nosweithiau agored a sesiynau blasu (gweler y wefan ar gyfer dyddiadau cyfredol), gan eich galluogi i brofi gweithdai creadigol ac ymweld â'n hamgylchedd creadigol gyda'r holl gyfleusterau.

Apply online at www.coleggwent.ac.uk

studentrecruitment@colegwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

